

## Cymanfa Ysgolion Dosbarth Bangor a Bethesda

Bydd cyfarfod o Bwyllgor Cyffredinol y Gymanfa yn Ffestri Emaus, Bangor, nos yfory, nos Lun, Chwefror 26 am 6.30 o'r gloch. Bydd cyfarfod o Is-Bwyllgor y Maes Llafur yn dilyn yn syth ar ôl y pwyllgor uchod.

Gobeithio y gall cynrychiolaeth o bob eglwys yng nghylch y Gymanfa fod yn y ddau gyfarfod.

## Oedfa Gŵyl Ddewi

Bydd plant ac ieuenticid capel Carmel, Llanllechid yn cynnal Oedfa Gŵyl Ddewi yn y capel am 10.30 o'r gloch fore Sul nesaf, Mawrth 4.

## Cwrs Grawys

Gofynnwyd i ni dynnu sylw at Gwrs Grawys 2018, '40 o Straeon Gobaith', yng nghapel Shiloh, Tregarth bob nos Iau o hyn i'r Pasg. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Mawrth 1.

Dyma'r themau nesaf yn y gyfres:

3. Datguddio'r Gwir (Marc 8:27-29)
4. Amser Penderfynu (Marc 10:42-45)
5. Gweithredoedd yn llefaru (Marc 14:22-25)
6. Trechu Angau (Marc 14:53-65)

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mawrth 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Mawrth 11

5.00 p.m. -

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Wener, Mawrth 2:** Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd am 6.00.  
**Dydd Sul, Mawrth 4:** Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Wener, Mawrth 2:** CIC am 7.00.  
**Dydd Sul, Mawrth 4:** Gwasanaethir gan Mr Corey Hampton am 10.00 o'r gloch a bydd yr Ysgol Sul am 11.15.

### CARMEL

**Dydd Llun, Chwefror 26:** Te Bach am 2.30 o'r gloch.

**Dydd Gwener, Mawrth 2:** Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd am 2.00 yng nghapel Jerusalem, Bethesda.

**Nos Wener, Mawrth 2:** Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 4:** Oedfa Gŵyl Ddewi gan y plant a'r ieuenticid am 10.30 o'r gloch, ac oedfa Gymun yng ngofal y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

### BETHLEHEM

**Dydd Gwener, Mawrth 2:** Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd am 2.00 yng nghapel Jerusalem, Bethesda.

**Dydd Sul, Mawrth 4:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 4:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Mawrth 4

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Dim oedfa nos


#### Mawrth 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

# Gronyn

Rhif 761  
25 Chwefror, 2018



## Billy Graham

*Billy Graham yn Anfield yn 1984*

Nid wyf yn bwriadu unrhyw amarch i'r dyn trwy ddweud nad wyf yn cofio'r un gair a ddywedodd. Wedi'r cyfan, mae bron i 34 o flynyddoedd ers i mi ei weld yn Anfield, cae pêl droed Lerpwl, ym mis Gorffennaf 1984; yr unig dro i mi ei weld.

Mae'n debyg fod yna gannoedd o bobl sy'n cofio popeth a ddywedodd Billy Graham y noson honno, a bod yr hyn a glywsant wedi cael dylanwad mawr ar lawer ohonynt. Mae'n siwr fod llawer yn tystio eu bod, trwy ras Duw a gwaith effeithiol yr Ysbryd Glân, wedi troi mewn ffydd at Iesu Grist y noson honno ar ôl clywed yr efengyllydd byd enwog yn cyhoeddi'r Efengyl. I Dduw y bo'r clod am weinidogaeth rymus Billy Graham dros y degawdau. Rhwng 1947 a 2005, cynhaliodd 417 o ymgyrchoedd pregethu ar draws y byd, a dywedir fod 215 miliwn o bobl wedi gwrandao arno'n pregethu dros y cyfnod hwnnw, mewn 185 o wledydd. Mae'n siwr gen i y byddai Billy Graham yn deall fod ymhlith y miliynau hynny rai fel fi a fyddai o fewn dim yn anghofio'r cyfan a glywsant. Er cymaint ei lwyddiant fel pregethwr, gwyddai nad ei allu ef oedd cyfrinach y llwyddiant hwnnw ond nerth Duw yn gweithio trwyddo. Byddai felly'n deall nad oedd disgwyl i'w bregethu gael yr un effaith ar bawb a'i clywodd, a bod llawer - yn Gristnogion yn ogystal ag anghredinwyr - yn dod o'r cyfarfodydd heb brofi unrhyw beth o bwys.

Gallaf gofio pregethwr ac oedfaon a

wnaeth fwy o argraff o lawer arnaf. Un o'r pregethwyr hynny, fel y soniais o'r blaen, oedd y gŵr duwiol, annwyl yr euthum ar y bws i Lerpwl gydag ef y noson honno, y Parchg John Vevar. A'r bregeth a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf erioed oedd nid un Billy Graham gerbron tyrfa o 33,000 o bobl mewn stadiwm bêl droed, ond un y Parchg Gwynn Williams mewn cyfarfod syml iawn gyda chriw bychan o bobl yn un o stafelloedd hen adeilad y Brifysgol ym Mangor. Mi fedraf gofio'r bregeth honno a'i chwestiwn, 'Pwy yw Iesu Grist?' er i mi ei chlywed dros ddeng mlynedd cyn y daith i Lerpwl.

Mae Duw'n defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddod â ni at Grist. Yr un yw'r neges o oes i oes, ac o le i le: y newydd da fod bywyd i'w gael yn yr Arglwydd Iesu. Ond mae'r bobl a'r cyfryngau yn amrywio. Trwy wahanol dystion a gwahanol fath o oedfaon, y mae Duw'n dod â phobl wyneb yn wyneb â'r angen i edifarhau a chredu yn yr Iesu. Nid y cyfryngau sydd bwysig; ac er mor ddyllanwadol fu gweinidogaeth Billy Graham dros y blynyddoedd, nid fo oedd yn bwysig o gwbl ond y Gwardwr bendigedig yr oedd yn gwahodd pobl i gredu ynddo.

Wrth ddiolch am waith yr efengyllydd a fu farw ddydd Mercher, mi gofiwn ar drothwy Gŵyl Ddewi mai'r un oedd galwad y gŵr duwiol Dewi o'r chweched ganrif a bregethai Grist gan alw ar bawb i'w gofleidio. A diolchwn fod gwaith yr Efengyl yn parhau o hyd.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Catrin, Susan a'r Gweinidog. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu help a'u harweiniad i ni yn yr addoliad unwaith eto.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr Arwel Williams. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

## Balm o Salm



'Dewch, canwn yn llawen i'r ARGLWYDD, rhown **BYW Y BEIBL** floedd o orfoledd i graig ein hiachawdwriaeth. Down i'w bresen-oldeb â diolch, gorfoleddwn ynddo â chaneuon mawl. Oherwydd Duw mawr yw'r ARGLWYDD, a brenin mawr goruwch yr holl dduwiau. Yn ei law ef y mae dyfnderau'r ddaear, ac eiddo ef yw uchelderau'r mynyddoedd. Eiddo ef yw'r môr, ac ef a'i gwnaeth; ei ddwylo ef a greodd y sychdir. Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron yr ARGLWYDD a'n gwnaeth. Oherwydd ef yw ein Duw, a ninnau'n bobl iddo a defaid ei borfa; heddiw cewch wybod ei rym, os gwrandewch ar ei lais. (Salm 95:1-7).

## Casgliad y Genhadaeth

Daeth yn bryd unwaith eto i ni wneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gobeithiwn gael y cyfan i law erbyn Sul olaf mis Mawrth.

Cewch roi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol o fewn yr enwad a gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

## Cwrs Ieuenctid

Waw! Sôn am benwythnos llawn cyffro a hwyl gawsom yng Nghwrs Ieuenctid Coleg y Bala! Cyrhaeddodd y bws mini nos Wener diwethaf i gludo criw ohonom o Lanberis a Chaernarfon i'r Bala, yn barod am benwythnos llawn gweithgareddau amrywiol a seminar ddyddiol i'n dysgu am y Beibl.

Braf oedd gweld ffrindiau arbennig unwaith eto o bob rhan o Gymru, a hefyd creu ffrindiau newydd. Ar ôl cyrraedd nos Wener, aethom i ollwng ein pethau yn yr ystafell cyn cyfarfod i gael te a dal fyny hefo'r rhai nad oeddem wedi'u gweld ers y cwrs diwethaf! Roedd pawb yn sgwrsio a llawn cynnwrf wrth benderfynu pa weithgareddau i'w dewis ar gyfer dydd Sadwrn. Cawsom ddewis o Lazerquest, Breakout neu Paintballing!

Y noson honno, daeth pawb at ei gilydd i gael ein sesiwn cyntaf a oedd yn llawn o gemau tîm a sialensau doniol. Yna cawsom wyllo ffilm! Cawsom ddewis rhwng Guardians of The Galaxy 2, Boss Baby neu High Street Musical. Cyfarnodd y Coleg siocled poeth a phopcorn i ni gael bwyta!

Bore Sadwrn deffrodd pawb i gael brechwast am 9 cyn mynd i'r ail sesiwn! Cawsom gyflwyniad gan un o arweinwyr y Coleg am stori Paul a sut ddaeth o'n un o negesyddion Duw, cyn i ni fynd i'n grwpiau i gael sgwrsio a chyfrannu ein barn. Y prynhawn hwnnw aethom i'r gweithgaredd a ddewisais ni; dewisais i Breakout, ac mi oedd o'n heriol ond yn hwyl i geisio'i wneud.

Y noson honno, cymerodd y plant ran mewn sioe dalent! Cymerodd llawer o bobl ran, a gwelsom amryw o ddoniau – canu, dawnsio ac adrodd jôcs! Yn olaf un, ar ôl ychydig o seibiant, dawnsiodd pawb i 'Silent Disco', sef disco ble mae pawb yn gwisgo clustffonau ac yn dewis cerddoriaeth o dri sianel gwahanol. Cawsom pítsa diodydd pop i'w yfed. Am noson hwyliog liwgar a gawsom gyda chwmmi da a chariad Duw yn amlwg.

*Diolch yn fawr iawn i Cadi Siân Thomas o Lanberis am yr adroddiad hwn o'r Cwrs Ieuenctid a gynhaliwyd wythnos yn ôl. Diolch eto i Catrin Hampton am ei gwaith yn trefnu i'r criw fynd yno.*

## Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd Dydd Gwener, Mawrth 2

Dyma'r dyddiad ar gyfer Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd eleni. Mae hwn yn fudiad Cristnogol byd-eang sy'n cael ei arwain gan ferched er mwyn rhoi cyfle i eglwysi weddio a gweithio dros heddwch a chyfiawnder yn y byd. Paratoowyd y gwasanaeth gan wragedd o eglwysi yn Suriname, gwlad ar arfordir golegddol De America. Y thema fydd

'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd', a cheir ynddo anogaeth i weld pa effaith a gaiff yr hyn a wnawn ni ar y blaned, sy'n un o roddion mwyaf Duw i ni.

Dyma drefn y cyfarfodydd:

2.00 p.m. Cyfarfod Undebol i eglwysi Dyffryn Ogwen yng nghapel Jerusalem.

6.00 p.m. Cyfarfod yn festri Ebeneser, Deiniolen.

Croeso cynnes i'r ddau gyfarfod.